# Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi
# Harbour Consultative Committee

## 21 Hydref - October 2008

***Adroddiad yr Uned Forwrol***

***1 - <u>Morwriaeth</u>***

***1.1*** Yn unol â'r drefn arferol, ar yr 12fed Awst 2008 fe archwiliwyd holl gymhorthion mordwyo harbwr Aberdyfi gan swyddog o Dŷ'r Drindod. Mae yn embaras llwyr fod yr archwiliwr wedi adrodd unwaith yn rhagor eleni na fod goleuadau ar y cymhorthion mordwyo yn cydymffurfio gyda threfn y goleuadau fel y bu yn ymddangos ar siart mordwyo'r harbwr. Yn 2007, fe adroddwyd gan yr archwiliwr bod llusern sawl Cymhorthydd Mordwyo Aberdyfi yn y drefn anghywir, ac fe roddwyd addewid byddai hyn yn cael ei gywiro heb oedi. Atodir copi o'r llythyr gan archwiliwr Tŷ'r Drindod yn dilyn yr ymweliad sydd yn cadarnhau'r sefyllfa yn 2008.

***1.2*** Ar ddechrau'r flwyddyn a drwy gyfnod yr haf fe olchwyd sawl Cymhorthydd Mordwyo Aberdyfi i'r lan a hyn oherwydd y tywydd garw a gafwyd. Yn ystod mis Mawrth, fe ddaeth y Bwi Tramwyo (Fairway) yn rhydd, ac fe achoswyd difrod i fwi'r 'Tafod' (Spit.) Fe achoswyd difrod sylweddol i un bwi starbord ac fe roedd angen ei gludo i Borthmadog ar gyfer ei drwsio.

***1.3*** Yn unol â'r drefn arferol, fe fydd bwi rhif 2 - Fl.R.5s. Lleoliad 52°32.06'Gog - 004°04.81'Gor, yn cael ei ddychwelyd i'r lan oherwydd mae tymhorol yw'r cymhorthydd mordwyo. Fe fydd angen paratoi a chychwyn rhaglen waith cynnal a chadw'r holl gymhorthion mordwyo yn ystod yr wythnosau nesaf. Fe fydd angen sicrhau bod yr Harbwr Feistr wedi cwblhau holl waith cynnal a chadw angenrheidiol ymhell cyn cychwyn y tymor nesaf, a bod yr holl gymhorthion yn cydymffurfio a gofynion Tŷ'r Drindod yn y dyfodol.

***1.4*** Mae costau cynnal a chadw cymhorthion mordwyo Aberdyfi drwy gymorth angenrheidiol contractwr allanol yn y flwyddyn ariannol gyfredol fel a ganlyn:-

| | | |
|---|---|---|
| i) | Llusern newydd cymhorthydd mordwyo | - £303.00 |
| ii) | Weldio gwaelod cymhorthydd mordwyo | - £174.00 |
| iii) | Gwaith gwydr ffibr cymhorthydd mordwyo | - £360.00 |
| iv) | Cynnal cymhorthydd Rhif 9 | - £529.00 |
| v) | Cynnal cymhorthydd Rhif 11 | - £600.00 |
| vi) | Cynnal cymhorthydd Rhif 7 | - £470.00 |
| vii) | Cynnal Bwi Port | - £705.00 |
| viii) | Cynnal cymhorthydd Rhif 5 | - £352.00 |
| ix) | Cynnal a chadw bwi 'Tafod' | - £881.00 |
| x) | Cynnal bwi starbord | - £705.00 |
| xi) | Casglu offer mordwyo | - £1,116.00 |
| xii) | **Cyfanswm** | **= £6,195.00** |

***2 – Materion cyffredinol yr Harbwr***

***2.1*** Yn unol â'r drefn arferol, bydd cychod morwyr yn cael eu storio ar dir yr harbwr dros fisoedd y gaeaf. Fe fydd hyn yn galluogi ein cwsmeriaid i gynnal a chadw cychod mewn safle gymharol ddiogel. Mae yn anorfod bod yr Harbwr Feistr yn cwblhau asesiad risg ar y safle er mwyn sicrhau na fod unrhyw risg i'r cyhoedd. Fe fydd yna angen ystyried y posibilrwydd osod canllawiau dros dro oddi amgylch y cychod tra byddent ar dir yr harbwr.

***2.2*** Ar ddechrau tymor yr haf, fe adnewyddwyd cwch rheolaeth harbwr Aberdyfi. Mae hyn yn fuddsoddiad sylweddol gan y Cyngor ac fe fydd angen sicrhau bod y cwch yn cael ei ddefnyddio ar gyfer rheoli cychod a defnydd hamdden eraill yn yr aber. Fe fydd angen sicrhau bod y cwch ar gael drwy gydol y flwyddyn er mae yna ofyn bod y cwch yn cael ei storio ar dir sych dros fisoedd y gaeaf.

***3 – Digwyddiadau / Events***

***3.1*** Ar y 25ain o Awst, cynhaliwyd 'Gŵyl y Llusern' yn Aberdyfi ac mae'r ŵyl yn parhau i fod yn boblogaidd iawn gyda'r cyhoedd. Roedd yna nifer fawr o ddigwyddiadau eraill yn ardal yr harbwr a fu wedi eu trefnu gan grwpiau lleol, ac fe roedd nifer fawr o gystadlaethau hwylio wedi eu cynnal yn yr harbwr eleni ac mae'r rhain wedi bod yn llwyddiannus iawn er gwaetha'r tywydd difrifol yn ystod yr haf.

***4.2*** Yn 2007, fe enillodd traeth Aberdyfi'r ***Faner Las Ewropeaidd*** am yr ail dro ond yn anffodus, oherwydd na fod ansawdd Dŵr Ymdrochi wedi cyrraedd y gofynion angenrheidiol yn ystod 2007, ni chaniatawyd i'r Uned Forwrol gyflwyno cais am unai'r Faner Las neu Wobr Traeth Trefol yn 2008.

Yn anffodus, mae yn debyg na fod ansawdd y dŵr ymdrochi wedi cyrraedd y gofynion unwaith eto yn 2008, ac mae'n bur debyg na fydd traeth Aberdyfi yn cael ei adnabod fel traeth Baner Las yn 2009. Mae holl ganlyniadau dŵr ymdrochi yn cael eu hasesu gan yr awdurdodau perthnasol ac fe ddisgwylir cadarnhad o'r canlyniadau gan yr awdurdod perthnasol cyn y Nadolig.

Er efallai na efallai bydd y traeth yn cael ei adnabod fel traeth Baner Las yn **2009**, mae'n hollol bwysig pwysleisio bod ansawdd y traeth a hefyd y gwasanaethau eraill sydd yn gysylltiedig â thraeth Aberdyfi i'r safon uchaf, ac ni fydd ansawdd dwr ymdrochi yn cael unrhyw effaith ar safon uchaf y traeth yn gyffredinol.

Pwysleisir na fod Asiantaeth yr Amgylchedd wedi cadarnhau'r canlyniad ansawdd Dwr Ymdrochi hyd yma.

***5 – Ystadegau Harbwr / Harbour Statistics***

***5.1*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***871*** o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru gyda Chyngor Gwynedd yn ystod 2008. Mae hyn yn llawer iawn llai mewn cymhariaeth â'r niferoedd a fu wedi cofrestru yn 2006, sef **337** yn llai. Nodi'r bod canran fwyaf o Fadau Dŵr Personol wedi cofrestru drwy'r swyddfa ym Mhwllheli (***403***) gyda ***32*** o Fadau Dŵr Personol yn cofrestru yn swyddfa'r harbwr yn Aberdyfi, sef yr un nifer a llynedd.

***5.2*** Hefyd fel a nodi'r yn y tabl amgaeedig, cofrestrwyd ***37*** o gychod pŵer yn harbwr Aberdyfi , ac fe gofrestrwyd ***92*** o gychod pŵer yn harbwr Abermaw . Mae hyn yn cymharu â ***45*** a fu wedi cofrestru yn Aberdyfi llynedd ble bu ***92*** wedi cofrestru yn Abermaw.

***5.3*** Nodi'r o'r tabl yn yr atodiad, y bod yna ***102*** llestr ar angorfa yn yr harbwr eleni. O'r wybodaeth a fu wedi ei gyflwyno gan berchenogion, ymddangos bod ***38%*** o berchenogion y cychod yn breswyl yng Ngwynedd a tra bod ***62%*** yn breswyl tu allan i'r sir.

## *6* ***Canlyniad Barn Cwsmer / Analysis of Customer Questionnaire***

Fe fydd adroddiad barn Cwsmeriaid yn cael ei gyflwyno ger bron Aelodau Pwyllgor Ymgynghorol Harbwr Aberdyfi yn y cyfarfod cyntaf yn 2009.

## *7* ***Cyllidebau / Budgets***

***7.1*** Atodir er gwybodaeth yr Aelodau, adroddiad cyllideb derfynol harbwr Aberdyfi ***am y flwyddyn ariannol 2007/08***. Atodir hefyd cyllid gwariant, a thargedau incwm yr holl harbyrau am y flwyddyn ***2008/09***.

***7.2*** Yn dilyn y setliad difrifol a gafodd Cyngor Gwynedd, bydd angen bod yn wyliadwrus iawn er sicrhau na fod yr Uned Forwrol a Pharciau Gwledig yn ymrwymo arian tu hwnt i'r gyllideb yn y flwyddyn ariannol gyfredol. Fe fydd gofyn bod yr Harbwr Feistr a'r Swyddog Morwrol Harbyrau yn paratoi rhaglen waith manwl ar gyfer dymor yr hydref a gaeaf er mwyn adnabod blaenoriaethau gwariant a blaenoriaethau adnoddau staff gan adrodd ar ganlyniad y gwaith mewn cyfarfod nesaf o'r Pwyllgor Ymgynghorol.

***7.3*** Mae targed incwm harbwr Aberdyfi am y flwyddyn ariannol gyfredol yn ***£40,540.*** Hyd at ddiwedd Awst, mae cyfanswm incwm harbwr Aberdyfi wedi ei gyrraedd ***£27,848*** sef ***£12,692*** yn fyr o'r targed. Mae angen bod yn wyliadwrus yma gan fod incwm Rhenti Adeiladau unwaith eto yn ymddangos yn uchel iawn eleni ***(£5,280)*** ac efallai bod yna gam codio wedi digwydd a bod angen trosglwyddo'r incwm at bennawd cyllid cywir.

Pe byddai hyn yn bod, yna golygai bod y targed incwm ***£17,972*** yn fyr o'r targed sydd yn pryderu'r Uned yn fawr iawn. Ni ragwelir bydd yna ychwanegiad sylweddol yn yr incwm rhwng mis Hydref a diwedd mis Mawrth 2009 oni bai am ffioedd gaeafu ar y cei, ac felly fe fydd angen sicrhau na fod yna wariant di angen o gwbl yn cael ei ymrwymo dros weddill y flwyddyn ariannol.

## *8* ***Strwythur Staffio Morwrol / Maritime Staffing Structure***

***8.1*** Fel y bu Aelodau yn ymwybodol, ar y 1af Fai 2007, fe roedd yna newidiadau staff dros dro yn Harbwr Porthmadog, Pwllheli ac Aberdyfi. Yn dilyn dyrchafiad cyn Harbwr Feistr Pwllheli, fe secondiwyd Harbwr Feistr Porthmadog i swydd Harbwr Feistr ym Mhwllheli; fe secondiwyd Swyddog Traethau Pwllheli i swydd Harbwr Feistr Porthmadog, ac fe secondiwyd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi i swydd Cymhorthydd Traeth Pwllheli.

***8.2*** Daeth cyfnod swydd Cymhorthydd Harbwr Aberdyfi dros dro i ben ar y 30 Fedi 2008 ac mae deilydd y swydd yn parhau ar secondiad yn ardal Dwyfor. Bydd yr Uned Forwrol yn adolygu sefyllfa gofynion staff tymhorol yn fanwl dros fisoedd y gaeaf. Er sicrhau cymorth digonol yn yr harbwr dros fisoedd y gaeaf, fe fydd staff Harbwr Abermaw yn cynorthwyo Harbwr Feistr Aberdyfi yn ystod y cyfnod 1af Hydref hyd at ddiwedd Mawrth 2009.

***8.3*** Yn ystod 2008, fe benodwyd pedwar aelod staff tymhorol er sicrhau rheolaeth a goruchwyliaeth ar ddŵr yr harbwr, ar draeth Aberdyfi a thraeth Baner Las Tywyn. Fe fydd yr Uned Forwrol yn adolygu'r sefyllfa yn fuan iawn yn 2009 gan edrych ar wir ofynion rheolaeth traethau a harbwr yn ystod misoedd prysuraf yr haf.